

Y cymeriad canolog

“Fel hyn y bu genedigaeth Iesu Grist.” (adn. 18)

Beth am ddarllen Mathew 1:18–25 ac yna myfyrio

Fel arfer ceir cymeriad canolog mewn stori – seren y stori, os hoffwch chi. A'r cymeriad canolog yn stori fawr Duw ydy Iesu Grist. Meddylia rhai am Iesu fel cymeriad canolog y Testament Newydd yn unig, ond ef yw cymeriad canolog yr Hen Destament hefyd. “Mae cyfyngu stori Iesu i'r Testament Newydd yn unig,” meddai un esboniwr, “yn golygu camddeall holl bwrpas y Beibl.”

Roeddech chi'n falch rwy'n siŵr mai gydag adnod 18 roedd y darlleniad heddiw'n dechrau ac nid gyda'r adnod gyntaf. Eto, mae Mathew'n rhoi achau ein Harglwydd inni am bwrpas arbennig. Dydy o ddim yn caniatáu inni ddarllen am enedigaeth Iesu cyn inni dyrchu trwy'r hyn sy'n ymddangos fel rhestr ddiflas o gymeriadau hanesyddol, oherwydd na fyddwn ni'n deall ei stori ef yn iawn nes gwelwn ni Grist yng nghyd-destun ei gyn dadau a mamau. Fe sefydlodd achau Iddewig yr hawl i berthyn i gymuned pobl Dduw. Fel yma yng Nghymru roedd yr achau yn rhoi hunaniaeth a statws i bobl. Roedd cenhadaeth Iesu yn gofyn ar iddo berthyn i'r bobl a oedd i ddwyn bendith i'r ddaear; ef oedd cyflawniad yr holl addewidion yn yr Hen Destament ynghylch y Meseia. Rhaid edrych ar Iesu yng ngoleuni stori fwy sydd yn ymestyn yn ôl dros lawer o ganrifoedd.

Mae'r Hen Destament, meddai Chris Wright yn ei lyfr *Knowing Jesus through the Old Testament*, yn adrodd y stori mae Iesu'n ei chwblhau. “Heb yr Hen Destament,” mae'n honni, “mae Iesu'n colli realaeth yn fuan ac un ai'n dod yn gymeriad mewn ffenestr liw – lliwgar ond llonydd a heb ofynion arnom – neu'n ddoli deiliwr y gellir ei gwisgo er mwyn siwtio'r ffasiawn bresennol.” Fyddai Iesu ddim y person y gwyddom ei fod heb y stori fwy. Nid cymeriad ystrydebol ydy Iesu; mae'n ddyd go iawn – er yn gymaint mwy na dyn, wrth gwrs.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Eseia 42:1–4;

Salm 72:1–17

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth sy'n dilyn pan fo Duw yn rhoi ei Ysbryd yn ei Anwylyd?
2. Pam fydd brenhinoedd yn plygu iddo a chenhedloedd yn ei wasanaethu?

Gweddi

Arglwydd Iesu, tra ydw i'n gorfoleddu mai ti ydy cymeriad canolog yr Ysgrythur, rydw i'n fwy balch fyth mai ti ydy'r cymeriad canolog yn fy mywyd i. Hebot ti ni fyddai bywyd yn werth ei fyw. Amen.